YR EGLWYS yng NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Corff Llywodraethol Yr Eglwys yng Nghymru
The Governing Body of The Church in Wales

Pwyllgor Sefydlog

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Sefydlog Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yn 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd ar 30 Tachwedd 2023.

Yn bresennol:

Aelodau Ex-officio

Y Parchedicaf Archesgob Cymru
Y Gwir Barchedig Esgob Llanelwy
Y Gwir Barchedig Esgob Mynwy
Y Gwir Barchedig Esgob Abertawe ac Aberhonddu
Y Gwir Barchedig Esgob Llandaf
Y Gwir Barchedig Esgob Tyddewi
Yr Athro Medwin Hughes, CBE, DL, Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr

Enwebwyd gan Bwyllgorau Sefydlog yr Esgobaethau

Mr Paul Whittaker CBE
Y Parchedig Richard Wood
Yr Hybarch Paul Mackness
Mr Tim Llewelyn (Cadeirydd)
Yr Hybarch Rod Green
Dr Heather Payne (Is-gadeirydd)
Y Parchedig John Connell
Y Parchedig Justin Davies
Mr Paul Murray

Cyfetholwyd

Syr Paul Silk

Yn bresennol hefyd:
Ysgrifennydd y Dalaith, Swyddog y Corff Llywodraethol, y Rheolwr Llywodraethu, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Cenhadaeth a Strategaeth.

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:
Mrs Hilary Wiseman, Is-gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr
Ei Anrhydedd y Barnwr Andrew Keyser KC
Y Parchedig Christine Owen
Ms Susan Fogarty
Dr Jayne Collier.

Croeso

Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod, yn arbennig y Gwir Barchedig Dorrien Davies y cadarnhaodd cyfarfod Esgobion yr Esgobaethau ei etholiad yn Esgob Tyddewi mewn Synod ar 29 Tachwedd.

Estynnodd y Cadeirydd groeso hefyd i Dr Grahame Davies, a oedd newydd ei benodi yn Gadeirydd Cenhadaeth a Strategaeth a Rhys Jenkins, a oedd newydd ei benodi yn Swyddog Llywodraethu.

Croesawodd y Pwyllgor Sefydlog Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl o absenoldeb tadolaeth hefyd, yn dilyn genedigaeth Daniel Tomos Lloyd Chinery.

Gweddïau

Offrymwyd y gweddïau agoriadol gan y Tad John Connell.

Blaenoriaethau yr Eglwys yng Nghymru

23/36

Derbyniodd y Pwyllgor Sefydlog fersiwn wedi'i diweddaru o ddatganiad blaenoriaethau yr Eglwys yng Nghymru, gyda nodyn gan Ysgrifennydd y Dalaith, ynghyd ag adroddiad gan y grwpiau trafod ar y pwnc a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Medi 2023.

Croesawodd y Pwyllgor Sefydlog sylwadau aelodau'r Corff Llywodraethol ac adolygwyd y Datganiad Blaenoriaethau wedi'i ddiweddaru.

Atodiad I – Datganiad blaenoriaethau yr Eglwys yng Nghymru

Yn dilyn trafodaeth, cymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog y Datganiad Blaenoriaethau ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru i'w gyflwyno i'r Corff Llywodraethol am ei gymeradwyaeth.

Atodiad II – Cynigion a Ddarparwyd gan y Gweithgor Blaenoriaethau

Aeth y Pwyllgor Sefydlog ymlaen i ystyried y cynigion a ddarparwyd gan y Gweithgor Blaenoriaethau.

Cynnig 1 a

Y dylai'r Eglwys yng Nghymru ystyried cyfuno'r Pwyllgor Sefydlog a Chorff y Cynrychiolwyr i greu un pwyllgor. Byddai hyn yn galluogi'r canlynol:

- *Byddai'n symleiddio prosesau llywodraethu'r Eglwys yng Nghymru, a fyddai'n galluogi penderfyniadau mwy pendant a chynt – gan ddileu llawer o'r ddeialog a'r adrodd sy'n llyncu amser yn y system gyfredol;*
- *Byddai'n caniatáu i un corff drafod strategaeth a chyllid;*
- *Byddai'n galluogi Mainc yr Esgobion i dreulio mwy o amser yn cyfarfod fel cymuned esgobol ac yn arwain eu hesgobaethau.*

Yn dilyn trafodaeth, a chan gydnabod pryderon posibl am y cydbwysedd rhwng cyllid a chenhadaeth a'r angen i gadw rôl y Corff Llywodraethol a oedd wedi'i diffinio'n dda, croesawodd y Pwyllgor Sefydlog Gynnig 1 a.

Cytunwyd, er mwyn bwrw ymlaen â'r cynnig, y byddai papur technegol wedi'i hwyluso gan swyddog yn cael ei baratoi yn dilyn gwaith gyda Chorff y Cynrychiolwyr a'r Pwyllgor Sefydlog. I ddechrau, byddai cylch gorchwyl ar gyfer y gwaith yn cael ei ddrafftio.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd nifer o faterion posibl i'w cynnwys yn y papur:

- Yr angen i fod yn ofalus wrth bennu maint corff integredig, ac i sicrhau y byddai'n cael ei ddylunio mewn modd a fyddai'n dal cyllid a chenhadaeth yr Eglwys;
- Byddai angen i'r corff integredig fod yn gwbl gynrychioliadol o'r Eglwys yng Nghymru;
- Dylid ystyried y goblygiadau cyfreithiol i ymddiriedolwyr er mwyn cadw statws elusennol;
- Nododd y Pwyllgor y byddai angen i holl aelodau corff integredig sy'n cynnwys y Pwyllgor Sefydlog a Chorff y Cynrychiolwyr fod yn ymddiriedolwyr o Gorff y Cynrychiolwyr;
- Nododd y Pwyllgor Sefydlog y byddai corff integredig yn cyflawni dwy rôl mewn tensiwn deinamig sef rôl Corff y Cynrychiolwyr yn gwasanaethu fel stiward asedau eglwysig y dalaith a'r Corff Llywodraethol yn gwasanaethu fel goruchaf senedd yr eglwys.

Cynnig 1b

Cynigir hefyd y dylid ystyried uno Pwyllgorau Sefydlog yr Esgobaethau a Byrddau Cyllid yr Esgobaethau ym mhob esgobaeth, fel bod strwythurau ar bob lefel o'r Eglwys yng Nghymru'n adlewyrchu ei gilydd ac mewn synergedd â'i gilydd.

Nododd y Pwyllgor Sefydlog y cynnig gan y gweithgor blaenoriaethau gan deimlo y byddai'n briodol i gynnig 1b gael ei ystyried gan yr esgobaethau eu hunain. Gellid ystyried y cynnig mewn Cymuned Ddysgu yr Esgobaethau yn y dyfodol.

Cynnig 1c

Cynigiwyd y dylai'r gwaith hwn gael ei ddatblygu drwy ymarfer cwmpasu dan ofal y Tîm Cenedlaethol i ddechrau, gyda chyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Sefydlog a Chorff y Cynrychiolwyr i drafod y cynnig.

Croesawodd y Pwyllgor Sefydlog y cynnig hwn a chytunodd y byddai gweithgor bychan yn cael ei sefydlu'n benodol i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn:

Gweithgor i ystyried integreiddio Corff y Cynrychiolwyr a'r Pwyllgor Sefydlog

Tri aelod grŵp craidd:

- Archesgob Cymru
- Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr
- Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog
- 2 wirfoddolwr, aelodau o Gorff y Cynrychiolwyr
- 2 wirfoddolwr, aelodau o'r Pwyllgor Sefydlog

Byddai'r gweithgor yn cymryd cyfrifoldeb am baratoi papur technegol cynhwysfawr, wedi'i hwyluso gan y swyddogion – gan weithio gydag Ymddiriedolwyr Corff y Cynrychiolwyr a'r Pwyllgor Sefydlog.

Cynnig 2

Cynigiwyd y dylai'r Eglwys yng Nghymru ystyried cynnal ymarfer cwmpasu ynghylch y Corff Llywodraethol.

Er mai'r dymuniad oedd i'r Corff Llywodraethol fod yn grŵp colegol y mae ei aelodau'n dysgu ac yn datblygu gan ei gilydd ac yn cyflwyno hyn yn ôl i'w hesgobaethau, cydnabyddir y gallai canfyddiad cyfredol aelodau'r Corff Llywodraethol fod yn wahanol.

Felly, cynigiwyd y dylid cynnwys sesiwn yng nghyfarfod mis Medi 2023 o'r Corff Llywodraethol lle byddai'r aelodau'n gweithio gyda'i gilydd i drafod:

- *Beth yr hoffent i Gorff Llywodraethol ei wneud fel endid;*
- *Beth ddylai Corff Llywodraethol ei wneud ym marn yr aelodau;*
- *Sut ddylai'r Corff Llywodraethol weithio fel grŵp;*
- *Cafodd y cynnig hwn ei gynnwys yn Sesiwn 3, Agendwm 11 cyfarfod y Corff Llywodraethol a gynhaliwyd ar 05-06 Medi 2023.*

Derbyniodd y Pwyllgor Sefydlog adroddiad ar drafodaethau'r grŵp a'r sesiwn lawn a gynhaliwyd yng nghyfarfod mis Medi 2023 o'r Corff Llywodraethol, a phenderfynodd mai'r Is-bwyllgor Penodiadau a Busnes oedd y grŵp mwyaf priodol i edrych ar waith y Corff Llywodraethol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Yn y drafodaeth, nodwyd y gallai'r Is-bwyllgor ystyried y materion canlynol:

- Ceisio cael cyfleoedd i fod yn fwy rhyngweithiol mewn cyfarfodydd;
- Ystyried profiad aelodau yn sgil sylwadau a wnaed yn y trafodaethau grŵp;
- Ystyried mabwysiadu dull consensws o drafod, i fesur naws trafodaeth a myfyrio a gwrando.

Cynnig 3

Cynigiwyd y dylai Mainc yr Esgobion drafod beth fyddent am ei gael o rôl ysgrifennydd esgobaethol wedi'i diwygio a sut y dylent gysylltu â'r Tîm Cenedlaethol.

Er bod y cynnig hwn wedi'i gyfeirio at Fainc yr Esgobion, roedd y Pwyllgor Sefydlog yn teimlo y byddai'n fuddiol cael doethineb a safbwyntiau Ysgrifenyddion yr Esgobaethau ar y cyfraniad sylweddol cyffredinol y maent yn ei wneud i'r Eglwys yng Nghymru.

Roedd y Pwyllgor Sefydlog hefyd yn teimlo y byddai'n fuddiol i ysgrifenyddion esgobaethau, yn eu rôl fel grŵp o fewn yr Eglwys yng Nghymru, baratoi cylch gorchwyl ar gyfer eu swyddogaeth fel grŵp, i gynorthwyo'r Fainc i ystyried y cynnig.

Cynnig 4

Y dylid craffu ar ba sgiliau fyddai'n angenrheidiol ar lefel leyg ac ordeiniedig i alluogi Ardaloedd Cenhadaeth/Gweinidogaeth i ffynnu.

Trafododd y Pwyllgor Sefydlog y cynnig a gofynnodd i'r swyddogion gwmpasu'r ffordd orau o gynnal yr adolygiad hwn.

Yn y drafodaeth, nodwyd bod y prif broblemau a oedd yn achosi anawsterau i reoli Ardaloedd Gweinidogaeth a Chenhadaeth yn effeithlon yn ymwneud ag arian, adeiladau ac adnoddau dynol.

Er mwyn ffynnu, teimlai'r Pwyllgor Sefydlog fod angen i'r Ardaloedd hyn sefydlu'r canlynol:

- datganiad llywodraethu clir;
- cynllun gweithredu cenhadaeth;
- cynllun ar gyfer eiddo;
- cynllun ar gyfer cyllid.

Teimlwyd y byddai Ardaloedd Cenhadaeth/Gweinidogaeth yn cael eu trawsnewid a'u galluogi i weithio'n well fel tîm a'r lleygion yn cael eu grymuso pe bai'r meysydd datblygu hyn yn cael eu mabwysiadu'n eang.

Cyfarfod Cymuned Ddysgu yr Esgobaethau

23/37

Derbyniodd y Pwyllgor Sefydlog adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a nodiadau ar yr hyn a ddigwyddodd yng nghyfarfod Cymuned Ddysgu yr Esgobaethau a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Hydref 2023.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Sefydlog ei gefnogaeth i barhau i gynnal cymunedau dysgu'r esgobaethau. Croesawyd cael lle penodol i ddysgu, rhannu a dathlu, gyda ffocws posibl ar y 5 nod cenhadaeth, fel ffordd o ddarparu hunaniaeth Anglicanaidd glir a chynllun gweithredu cenhadaeth da.

Trafodaeth gychwynnol ar eitemau arfaethedig cyfarfodydd y Corff Llywodraethol

23/38

(a) <u>Cynnig Aelodau Preifat – Terfynau Oedran</u>

Hysbyswyd y Pwyllgor Sefydlog y byddai cynnig i weithredu dileu'r terfynau oedran uchaf ar gyfer y Corff Llywodraethol a Chynadleddau'r Esgobaethau yn cael ei gyflwyno i'r Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2024. Atgoffwyd y Pwyllgor Sefydlog am y cefndir a'r trefniadau cyfredol ar gyfer terfynau oedran yn yr Eglwys yng Nghymru, a oedd wedi bod yn eu lle ers 2016.

Cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog, cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno'r mater hwn gerbron y cyfarfod strategol ym mis Ionawr, ble byddai'r pwyllgor yn edrych ar derfynau oedran lleol a thaleithiol, ac yn arbennig i adolygu'r Adroddiad a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol yn 2016 a beth oedd esgobaethau wedi'i wneud ers hynny.

Yn y drafodaeth, nodwyd:

- er bod y Parchedig Peter Ratcliffe yn dymuno gweld pob cyfyngiad oedran yn cael ei ddileu, teimlwyd y gallai hyn gael canlyniadau anfwriadol digroeso;
- na ddaeth y cynnig yn ffurfiol o Gynhadledd Esgobaeth Tyddewi;
- bod angen gweithredu, i osgoi'r posibilrwydd y gallai grwpiau o glerigion a lleygion bleidleisio i atal newidiadau.

(b) <u>Adolygiad o Ardaloedd Gweinidogaeth</u>

Penderfynwyd ar ffurf derfynol y Cynnig Aelodau Preifat a gyflwynwyd i'r Corff Llywodraethol gan y Parchedig Ddr Jonathon Wright ym mis Medi yn dilyn cymeradwyaeth o'r gwelliant a gyflwynwyd gan y Parchedig James Henley.

O ganlyniad, mae'r Corff Llywodraethol wedi gofyn i'r Pwyllgor Sefydlog ystyried beth yw'r ffordd orau o ddatblygu ac ymgorffori dulliau cadarn o hunanwerthuso mewn esgobaethau ac o gydweithio ar draws y dalaith mewn perthynas ag effeithiau cyflwyno ardaloedd gweinidogaeth/cenhadaeth ledled y dalaith.

Bu'r Pwyllgor Sefydlog yn dechrau meddwl sut i fynd ati i gyflawni'r dasg hon a chytunwyd mai'r ffordd orau ymlaen oedd i gymuned ddysgu'r esgobaethau wneud ei gwaith i ddatblygu cynigion i ehangu ac ymgorffori dulliau cadarn o hunanwerthuso mewn esgobaethau ac o gydweithio ar draws y dalaith.

Cytunodd y Pwyllgor Sefydlog y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu i gyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2024.

Corff y Cynrychiolwyr

23/39

(a) Cyllideb 2024

Cyflwynodd Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr y Gyllideb ar gyfer 2024 a derbyniodd y Pwyllgor Sefydlog destun llawn y gyllideb a'r sylwadau arni. Nodwyd bod y dogfennau hyn wedi'u derbyn a'u cymeradwyo gan Gorff y Cynrychiolwyr yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2024.

Ar ôl trafod, cymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog gyllideb y dalaith ar gyfer 2024.

(b) Aelodaeth

Er mwyn parhau fel aelodau, roedd rhaid ailbenodi Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr a Chadeiryddion tri o bwyllgorau Corff y Cynrychiolwyr i Gorff y Cynrychiolwyr am y tair blynedd nesaf a gofynnwyd i'r Fainc a'r Pwyllgor Sefydlog gefnogi pedwar penodiad i Gorff y Cynrychiolwyr drwy'r categori aelodaeth enwebedig:

- Yr Athro Medwin Hughes (Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr)
- Mr. Tom Lloyd (Cadeirydd Comisiwn y Cadeirlannau ac Eglwysi)
- Mr. Chris Clarke (Cadeirydd y Pwyllgor Eiddo)
- Mr. Peter Kennedy (Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol)

Nododd y Pwyllgor Sefydlog y byddai'r penodiadau am y tair blynedd gyfan, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2024.

Penodiadau Diogelu

23/40

Derbyniodd y Pwyllgor Sefydlog adroddiad gan y Cyfarwyddwr Diogelu ar newidiadau i aelodaeth cyrff diogelu a:

(i) cymeradwyodd y penodiadau canlynol:

Pwyllgor Diogelu

Mr Richard Powell i'r Pwyllgor Diogelu ar gyfer 2024-2026
(Roedd Mr Powell yn Uwch Ymgynghorydd Diogelu Rhyngwladol a Chyfarwyddwr Cwmni)

Panel Diogelu y Dalaith

Nodwyd ymddiswyddiad Mr Keith Lewis
Penodwyd: Mrs Katie Dorrian
Mr Simon Burnam-Rees ar gyfer 2024-2026
(Mrs Dorrian oedd yr arweinydd diogelu ar gyfer Gwasanaethau Plant Aspris ac mae'n gyn-ddirectif ym maes amddiffyn a diogelu'r cyhoedd. Mr Burnam-Rees oedd swyddog arweiniol Llesiant Addysg a Diogelu, Cyngor Dinas a Sir Abertawe)

Panel y Cynllun Cymorth i Oroeswyr (am flwyddyn i ddechrau)

Canon Simon Lloyd
Yr Hybarch Stella Bailey
Mr Ant Griffiths
Mr Simon Plant (arbenigwr annibynnol a delir i gynrychioli lleisiau goroeswyr)

Cofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf a 4 Medi 2023

23/41

(a) Cofnodion

Cymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog y Cofnodion drafft ar gyfer y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf a 4 Medi 2023 fel cofnod cywir a nodwyd y materion a oedd yn codi.

Llofnododd y Cadeirydd y llyfr cofnodion.

(b) Materion yn Codi

Derbyniwyd nodyn ar y materion a oedd yn codi o'r cofnodion.

Adroddiadau Diweddaru

Cyfethol i'r Corff Llywodraethol
23/42

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod aelodau'r Corff Llywodraethol a'r esgobaethau wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig yn cadarnhau bod y trefniadau ar gyfer cyfethol i'r Corff Llywodraethol wedi newid eleni, yn dilyn cymeradwyaeth y Corff Llywodraethol i'r newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Sefydlog ym mis Ebrill 2023.

Roedd yr esgobaethau wedi derbyn canllawiau hefyd ar sut i weithredu'r trefniadau newydd hyn yn ymarferol ac wedi cael cais i anfon gwybodaeth am sut y gallai pobl yn eu hesgobaeth gynnig gwasanaethu fel aelodau cyfetholedig o'r Corff Llywodraethol. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd drwy wefan yr Eglwys yng Nghymru i ymgeiswyr sy'n cynnig eu hunain i gael eu cyfethol.

Byddai hanner y sawl a gyfetholir yn cael eu **hethol** gan y Corff Llywodraethol ei hun, a hanner yn cael eu **penodi** gan y Pwyllgor Sefydlog.

Er gwybodaeth i'r Pwyllgor Sefydlog, mae'r aelodau canlynol i'w **hethol** gan y Corff Llywodraethol ar gyfer dechrau tair blynedd 2024-2027:

- **Dau** unigolyn lleyg o dan 30 oed (bydd yr etholiad hwn yn cael ei gynnal drwy un system bleidlais drosglwyddadwy);
- **Un** clerig sydd naill ai wedi bod mewn Urddau Eglwysig am lai na phedair blynedd neu sydd wedi'i drwyddedu ond ddim yn derbyn cyflog gan yr Eglwys yng Nghymru. (Bydd hwn yn etholiad cyntaf i'r felin.)

Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor Sefydlog yn **penodi**:

- **Dau** unigolyn lleyg;
- **Un** clerig.

Bydd y penodiadau hyn yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Sefydlog yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, ac erbyn hynny byddwn yn gwybod canlyniadau etholiadau yr esgobaethau a'r cyfetholiadau.

Byddai'r etholiadau ar gyfer y rhai i'w cyfethol i'r Corff Llywodraethol yn cael eu cynnal ddechrau mis Ionawr yn dilyn derbyn ffurflenni erbyn y dyddiad cau, sef dydd Llun 11 Rhagfyr 2023 am hanner dydd. Nododd y Pwyllgor Sefydlog y sefyllfa ar y cam hwn o'r broses.

Grŵp Gweithredu Adolygiad Mynwy

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Sefydlog, roedd Grŵp Gweithredu Adolygiad Mynwy wedi cyfarfod unwaith, ar 27 Medi. Yn y cyfarfod hwnnw, dywedodd y Grŵp ei fod am gyfarfod nesaf yn y gwanwyn ac mae wrthi'n ceisio pennu dyddiad. Mae'n debygol mai dyma fydd cyfarfod olaf y Grŵp Gweithredu a'r bwriad oedd cyflwyno adroddiad terfynol i'r Corff Llywodraethol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf.
Nodyn ar Aelodaeth y Pwyllgor Sefydlog

Byddai tair blynedd newydd y Pwyllgor Sefydlog yn cychwyn am 00.00 ar 20 Chwefror 2024.

(i) Aelodaeth Etholedig y Pwyllgor Sefydlog

Erbyn 24 Tachwedd 2023, roedd yr Esgobaethau wedi ethol yr aelodau canlynol i'r Pwyllgor Sefydlog am y tair blynedd nesaf:

Llanelwy

Y Parchedig Ganon Dr Trish Owens
Mr Paul Whittaker CBE

Bangor

Caeodd yr enwebiadau ar gyfer aelodaeth y Corff Llywodraethol ar 26 Tachwedd.

Tyddewi

Yr Hybarch Paul Mackness (Archddiacon Tyddewi)
Mr Tim Llewelyn

Llandaf

Yr Hybarch Rod Green (Archddiacon Llandaf)
Dr Heather Payne

Mynwy

Canlyniad yr etholiad i'w gyhoeddi ar ôl 14 Rhagfyr.

Abertawe ac Aberhonddu

Canlyniad yr etholiad i'w gyhoeddi ar ôl 7 Rhagfyr.

Nododd y Pwyllgor Sefydlog y sefyllfa ar y cam hwn.

(ii) Aelodaeth Enwebedig

Byddai'r Pwyllgor Sefydlog yn cael cais i ystyried enwebu dau unigolyn ar gyfer y Corff Llywodraethol i'w penodi i'w aelodaeth yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2024.

Roedd y llefydd hyn yn wag ar hyn o bryd.

(iii) Aelodaeth Gyfetholedig

Roedd gan y Pwyllgor Sefydlog ddau le i aelodau cyfetholedig y gallai benodi iddynt ar 20 Chwefror 2024.

[Yr aelodau yn y llefydd hyn ar y pryd oedd Syr Paul Silk a'i Anrhydedd y Barnwr Andrew Keyser KC.]

(iv) Aelodaeth Ex-officio

Roedd aelodaeth ex-officio y Pwyllgor Sefydlog yn cynnwys chwe Esgob yr Esgobaethau a Chadeirydd ac Is-gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

23/43

Byddai'r Pwyllgor Sefydlog yn cynnal cyfarfod strategol ar-lein ddydd Mawrth 16 Ionawr.

Byddai'r cyfarfod gweithredol nesaf, y cyntaf o'r tair blynedd newydd, yn cael ei gynnal ar-lein ddydd Mawrth 20 Chwefror am 09.00, lle byddai'r Pwyllgor Sefydlog yn penodi ei is-bwyllgorau ar gyfer y tair blynedd newydd.

Gweddïau Clo

Offrymodd yr Archesgob weddi i gloi'r cyfarfod.